COFNODION CYFARFOD CYNGOR BRO

Dydd Mawrth, 29ain Mehefin 2026 – 6:30yh

Festri Rhos Y Gad, Llanfairpwll

Presennol:

Ward Braint		**Ward Gwyngyll**
Stephen Edwards (Cadeirydd)		Gareth Cemlyn Jones
Ian Roberts		Gwynfor Parry
Glesni Parry		John Roberts
Alun Jones		Medwyn Roberts
		Alys Moules Jones
Cynghorwr Sirol:	Dyfed Jones	
Clerc:	Gillian Morris	

1.0	**Ymddiheuriadau**	**Gweithredu**	**Erbyn**
	Meirion Jones **Cynghorwyr Sirol** - Robin Williams, Sonia Williams		
2.0	**Datganiadau o Ddiddordeb**		
3.0	**Ethol Is-Gadeirydd y Cyngor Bro**		
	GCJ yn derbyn y rôl yn dilyn y cynnig yn y cyfarfod Blynyddol.		
4.0	**Sefydlu Pwyllgorau**		
	Trafodwyd pwyllgorau a penderfynwyd ar y canlynol: Fynwent Cyllid Datblygu, Adfywio ac Amgylchedd Neuadd Goffa Eiddo (Blynyddol)		
5.0	**Camau Gweithredu o'r Cyfarfod Blaenorol**	**Gweithredu**	**Erbyn**
5.1	**Cyngor Bro** • Pecyn Cynghorwyr newydd – Clerc i ddraftio pecyn. • Budreddi Cwn – Clerc i ddilyn y broblem i fynu gyda CSYM.	Clerc	Gorffennaf 2026
5.2	**Amgylchedd ac Eiddo** • Maes Parcio Y Gors – SW mewn trafodaeth gyda adran briffyrdd yn CSYM.		

5.3	**Cyllid** • Ceisio am grant refeniw i gyflogi unigolyn i chwilio am grantiau ar gyfer y prosiectau sydd ar y gweill.	Clerc	MFAPH
5.4	**Neuadd Goffa** • Lôn Minffrwd – Parry Davies Clwyd Jones am weithredu gyda diddymu y gytundeb. • Polisiau • Clerc i geisio cael dyfynbris ar gyfer adeiladu wal yn maes parcio.	Clerc HE	MFAPH
5.5	**Y Fynwent** • Fynwent Newydd –Wedi derbyn dyfynbris ar gyfer gwaith yn y lleoliad arfaethedig. Clerc yn disgwyl am ddyfynbris gan gwmni Cadarn.		
6.0	**Cau y Cyfarfod Blynyddol**		
	Caewyd y cyfarfod		
7.0	**Pwyllgorau Allanol - Adroddiadau er gwybodaeth**.	**Gweithredu**	**Erbyn**
	Adroddiad Cynghorwyr Sir • Llinellau Melyn – DJ a'r Clerc i drefnu cyfarfod ar ol derbyn ebost gan Alun Roberts adran briffyrdd Cyngor Sir Ynys Môn.		
8.0	**Ceisiadau Cynllunio**		
8.1	Cyfeirnod Cais: LBC/2026/10 - Tregarne, Ffordd Caergybi, Llanfairpwll		
9.0	**Penderfyniadau Cynllunio**		
10.0	**Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Cyngor Bro 28.04.2026**		
10.1	John Roberts yn cynnig bod y cofnodion yn gywir, Ian Roberts yn eilio.		
11.0	**Cyflwyno Cyfarfod Blynyddol 19.05.2026**		
11.1	John Roberts yn cynnig bod y cofnodion yn gywir, Ian Roberts yn eilio.		
12.0	**Cyfrifon a Thaliadau Mis Mehefin**		
12.1	• Awdurdodwyd i wneud y taliadau.		
13.0	**Trafod**	**Gweithredu**	**Erbyn**

13.1	Datblygiad Y Garnedd • Cafwyd ddiweddariad gan Daniel Brettell a Helen Williams o gwmni Clwyd Alun ynglŷn a datblygiad yn Y Garnedd. • Trafodwyd y canlynol:- • Nifer y tai – 27 o gartrefi • Tenantiaid – yn cael ei dyrannu trwy Cyngor Sir Ynys Môn • Prosiect – bydd y prosiect yn cymryd rhwng 18 a 24 mis i gwblhau. • Parcio – Fe fydd gan bob cartref 2 ardal parcio. • Gwybodaeth marchnata – Clwyd Alun am ddarparu newyddlen er mwyn I'r Cyngor Bro rannu ar y cyfryngau cymdeithasol.		
13.2	**Pwyllgorau** Gweler pwynt 4.		
13.3	**Cyfarfodydd** SE wedi derbyn cwynion ynglŷn a newid dyddiadau cyfarfodydd. Clerc yn esbonio bod yna resymau dilys pan yn newid dyddiadau. Cytunwyd i beidio newid dyddiadau ag os nad ydi'r Clerc ar gael fe fydd yn rhaid i aelod gymryd y cofnodion.	Clerc	Mai 2025
13.4	**Statws Elusennol Y Neuadd Goffa** Gohurio y pwynt trafod.		
	Cynhelir y cyfarfod nesaf – 28ain Gorffennaf 2026 am 6.30yh		
**** DIOLCH YN FAWR IAWN I CHI AM FYNYCHU ****			